Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**CLA(4)-11-12**

**CLA142**

**Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012**

**Gweithdrefn: Cadarnhaol**

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu, at ddibenion Rhannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, na chaiff gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol sydd ar gael mewn ardaloedd awdurdod lleol penodol eu hystyried yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn yr ardal awdurdod lleol honno.
Mae'r gorchymyn yn darparu ymhellach y caiff gwasanaethau yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon sy'n cyfateb i wasanaethau iechyd meddwl eilaidd a ddarperir yng Nghymru eu hystyried yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd at rai dibenion yn Rhan 3 o'r Mesur.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rhinweddau: craffu**
[Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.]

**NEU**

[O dan Reol Sefydlog 21.3.(ii) gwahoddir y pwyllgor i ystyried a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn hwn gan ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

- Mae Rhan 2 o'r Mesur yn cynnwys gofynion mewn perthynas â chydlynu gofal a chynllunio gofal a thriniaeth. Mae Rhan 3 o'r Mesur yn galluogi oedolion cymwys sydd wedi cael eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd i atgyfeirio eu hunain yn ôl i wasanaethau eilaidd yn uniongyrchol os ydynt yn credu bod eu hiechyd meddwl yn gwaethygu.
- Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn yn golygu gwahardd unrhyw wasanaeth neu driniaeth a nodwyd ac sydd ar gael fel rhan o wasanaeth iechyd meddwl sylfaenol lleol mewn ardal awdurdod lleol o dan Ran 1 o'r Mesur o ofynion Rhannau 2 a 3 o'r Mesur.

- O ganlyniad, ni fydd angen i ddarparwyr gwasanaeth (byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol) benodi cydlynwyr gofal neu ddarparu cynlluniau gofal a thriniaeth i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau neu driniaeth a ystyrir yn wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol mewn ardal awdurdod lleol. Canlyniad arall yw na fydd hawl gan unigolyn sydd wedi cael ei ryddhau o wasanaethau a ddarperir fel rhan o wasanaeth cymorth iechyd sylfaenol lleol i gael ailasesiad.
- Mae'r Gorchymyn yn ymestyn hawl y rhai sy'n gymwys i gael asesiad o dan Ran 3 o'r Mesur i bobl sydd wedi cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (sy'n cyfateb i'r rhai a ddarperir yng Nghymru) yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.]

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**8 Mai 2012**